# YR ALWAD, Y DAITH A'R GENHADAETH

Gwahoddiad oddi wrth Esgobion Lloegr a Chymru i Fyfyrio ar Rodd Priodas a Bywyd Teuluol



Ym mis Hydref 2014 cyfarfu esgobion a dirprwyon eraill o fannau o'r byd â'r Pab Ffransis yn Rhufain ar gyfer cyfarfyddiad arbennig a elwir yn Synod. Y thema i'w thrafod oedd yr Heriau Bugeiliol i'r Teulu yng Nghyd-destun Efengylu. Cynhelir synod arall ym mis Hydref 2015 â'i bwyslais y tro hwn ar thema Galwedigaeth a Chenhadaeth y Teulu yn yr Eglwys ac yn y Byd Cyfoes. Yn ystod y bwlch hwn rhwng y ddau Synod hyn, mae ein Tad Sanctaidd wedi gofyn inni dreulio amser yn myfyrio ar y themâu hyn gyda "chraffter ysbrydol gwirioneddol"

## Beth yw ystyr hyn?

Mae'r Eglwys bob amser yn gweithredu dan arweiniad ac ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân. Gofynnwch am hyn wrth weddïo; meddyliwch am sefyllfa'r teulu heddiw; gweddïwch dros y teulu a gofynnwch sut i gryfhau priodas a bywyd teuluol. Yn bennaf oll, gweddïwch dros eich teuluoedd eich hunain, fel y cânt eu cryfhau mewn cariad trwy rodd ysbryd Duw. Gall fod yn fuddiol myfyrio ar eich pen eich hun ac mewn grwpiau – trwy i bobl ddod ynghyd yn eu plwyfi, gweddïo ynghyd a thrafod y pethau sy'n wynebu'r teulu heddiw. Gobeithiwn y bydd eich sgyrsiau yn ysbrydoli eich gweddïau a'ch gweithredoedd dros deuluoedd, pob teulu, yn enwedig eich un chi. Unwn ein calonnau a'n gweddïau â'ch rhai chi, fel y caiff pob teulu ei gryfhau mewn cariad, cariad Duw, at ei gilydd, fel y daw teyrnas Duw, ac fel y gwneir ewyllys Duw yma ar y ddaear megis y mae yn y nef.

### POPE FRANCIS

*"Deuluoedd annwyl, mae'r Arglwydd yn gwybod ein trafferthion: mae'n gwybod. .*

*Mae'n gwybod pa feichiau sydd gennym yn ein bywydau. Ond mae'r Arglwydd hefyd yn gwybod ein hawydd mawr i brofi llawenydd a gorffwystra!*

*A ydych yn cofio? Dywedodd Iesu, `… i'ch llawenydd chwi fod yn gyflawn.' (Ioan 15: 11). Mae Iesu am i'n llawenydd fod yn gyflawn!"*

I DEULUOEDD WEDI YMGASGLU YN RHUFAIN 26 HYDREF 2013



# YR ALWAD, Y DAITH A'R GENHADAETH

Gwahoddiad oddi wrth Esgobion Lloegr a Chymru i Fyfyrio ar Rodd Priodas a Bywyd Teuluol

## Y PAB FFRANSIS AR PRIODAS

"Mae'r rheini sy'n dathlu'r sagrafen yn dweud, `Rwy'n addo bod yn ffyddlon iti, mewn llawenydd ac mewn tristwch, mewn afiechyd ac mewn iechyd; byddaf yn dy garu a'th anrhydeddu holl ddyddiau fy oes'. Y foment honno, nid yw'r ddau yn gwybod beth a ddaw, na pha wynfydau a phoenau sy'n eu disgwyl. Maent, fel Abraham, yn cychwyn ar daith gyda'i gilydd. A dyna beth yw priodas! Cychwyn allan a cherdded ynghyd, law yn llaw, dodi eich hunain yn nwylo nerthol yr Arglwydd. Law yn llaw, yn wastadol ac am weddill eich oes. A pheidiwch â thalu dim sylw i'r diwylliant dros dro hwn a all chwalu ein bywydau."

RHUFAIN. 26 HYDREF 2013

## DARLLENWCH A MYFYRIWCH

Gofynnwn ichi fyfyrio ar wahanol gamau priodas a bywyd teuluol: syrthio mewn cariad, dyweddïo, dathlu priodas, y blynyddoedd cynnar; plant, gwynfydau a gofidiau, plant yn eu harddegau, bod ar eich pennau'ch hunain fel cwpl, blynyddoedd henaint. Darllenwch yn weddïgar y storïau ysgrythurol hyn a myfyrio arnynt:

- Ffydd Abraham a Sara (Genesis 12: 1-9)
- TGweddi Tobias a Sara (Tobit 8: 4-8)
- Mair – Cyfarchiad Gabriel a'r Ymweliad ag Elisabeth (Luc 2: 22-40)
- Y wledd briodas yng Nghana (Ioan 2: 1-12)
- Mair a Ioan wrth droed y groes (Ioan 19: 24-7)
- Y disgyblion ar y Ffordd i Emmaus (Luc 24: 13-32)

**Sut mae'r storïau hyn yn cyffwrdd â'ch galwad a'ch taith a'ch cenhadaeth eich hun fel teulu?**



# YR ALWAD, Y DAITH A'R GENHADAETH

Gwahoddiad oddi wrth Esgobion Lloegr a Chymru i Fyfyrio ar Rodd Priodas a Bywyd Teuluol

## YR HYN Y CREDWN

Mae ein ffydd Gatholig a dysgeidiaeth yr Eglwys yn ein galluogi i ddatgan y gwirionedd am fywyd teuluol:

**Credwn** fod priodas yn alwedigaeth gysygredig a phrydferth; am ein bod yn credu yn Nuw ein Tad, sy'n creu pob person, yn wryw a benwy, ar ei lun a'i ddelw ei hun;

**Credwn** yn Iesu Grist, Mab Duw, ein Hiachawdwr, sy'n datguddio beth yw bod yn gyflawn ddynol, sy'n dangos cariad Duw tuag atom ac sy'n gorchymyn inni garu ein gilydd;

**Credwn** yn yr Ysbryd Glân, y mae ei bresenoldeb byw yn sancteiddio ein calonnau ac yn puro ein chwantau;

**Credwn** yn Nuw fel Tri Pherson, mewn perthynas gyd-ddibynnol a chydradd â'i gilydd, y patrwm ar gyfer pob perthynas ddynol;

**Credwn** yn yr Eglwys, priodferch Crist, sydd â'r gwaith o gyhoedd Newyddion Da iachawdwriaeth a'r alwad i edifarhau;

**Credwn** ein bod, trwy fedydd, wedi dod yn frodyr a chwiorydd yng Nghrist er ei fwyn ef ac er mwyn ein gilydd, ein cyfrifoldeb cyntaf fel Cristnogion ac fel aelodau teulu;

**Credwn** fod Crist, yn achos y rhai a fedyddiwyd, wedi dyrchafu'r stad briodasol yn sagrafen;

**Credwn**, mewn priodas Gristnogol, fod gwyrw a benyw yn cael eu huno ynghyd â chwlwm cariad sydd yn llwyr, ffyddlon, ffrwythlon ac am oes lle mae Crist yn fythol bresennol;

**Credwn** fod priodas a theulu er lles y gwr a'r wraig fel ei gilydd a chenhedlu ac addysgu unrhyw blant a rydd Duw iddynt;

**Credwn** fod teuluoedd yn ysgolion o'r dynoldeb dyfnaf, lle dysgir rhinwedd a lle mae'r rhieni yn hyfforddwyr cyntaf yn ffyrdd ffydd;

**Credwn** mai'r teulu yw sylfaen cymdeithas a'r lles cyffredin;

**Credwn** fod gweddi a bywyd ffydd yn cynnal priodas a'r teulu yn Eglwys ddomestig;

**Credwn** fod yr Arglwydd yn bresennol yng ngwynfydau a threialon parau priod a theuluoedd;

**Credwn** y gall cyfnodau anodd mewn priodas a bywyd teuluol hefyd fod yn gyfleoedd i dyfu mewn sancteiddrwydd a chariad, gan fod â hawl, felly, ar weinidogaeth fugeiliol yr Eglwys;

Gan hynny, **Credwn** mai priodas yw'r sylfaen ar gyfer bywyd teuluol sy'n tystio i'r byd y gellir byw'r ffydd fel taith o obaith, llawenydd a chariad.

# YR ALWAD, Y DAITH A'R GENHADAETH

Gwahoddiad oddi wrth Esgobion Lloegr a Chymru i Fyfyrio ar Rodd Priodas a Bywyd Teuluol

## CWESTIYNAU I FYFYRIO ARNYNT

Gan feddwl am yr hyn yr ydych wedi ei ddarllen yn yr ysgrythurau a chan ddefnyddio'r dyfyniadau isod o ddysgeidiaeth y Pab Ffransis, myfyriwch ar y cwestiynau sy'n canlyn a'u cymhwyso i'ch profiad chi o briodas a bywyd teuluol.

1. *"Rwy'n gofyn ichi wrthryfela yn erbyn y diwylliant hwn sy'n gweld popeth fel pethau dros dro ac sydd yn y pen draw yn credu eich bod yn analluog i gymryd cyfrifoldeb, sy'n credu eich bod yn analluog i wir garu. Mae gennyf hyder ynoch ac rwy'n gweddïo drosoch. Ymwrolwch i `nofio yn groes i'r lli'. Ac ymwrolwch hefyd i fod yn hapus."*

Y PAB FFRANSIS, 28 GORFFENNAF 2013, DIWRNOD IEUENCTID Y BYD, BRAZIL

**Beth yw gwynfydau a gobeithion eich priodas a bywyd teuluol heddiw?**

2. *"Gyda hyder yn ffyddlonder Duw, gellir wynebu popeth yn gyfrifol ac eofn. Nid yw parau priod Cristnogol yn ddiniwed; gwyddant am broblemau a themtasiynau bywyd. Ond nid ydynt yn ofni bod yn gyfrifol gerbron Duw a gerbron cymdeithas. Nid ydynt yn rhedeg i ffwrdd, nid ydynt yn cuddio, nid ydynt yn esgeuluso'r alwad i greu teulu a dwyn plant i mewn i'r byd. Ond y dyddiau hyn, Dad, mae hi'n anodd … Wrth gwrs ei bod hi'n anodd! Dyna pam rydym angen gras, y gras sy'n dod o'r sagrafen!"*

Y PAB FFRANSIS, RHUFAIN, 26 HYDREF 2013

**Beth yw treialon ac ofnau eich priodas a bywyd teuluol heddiw?**

3. *"Mae'r rheini sy'n dathlu'r sagrafen yn dweud, "Rwy'n addo bod yn ffyddlon i ti, mewn llawenydd ac mewn tristwch, mewn afiechyd ac mewn iechyd; byddaf yn dy garu a'th anrhydeddu hoff ddyddiadu fy oes". Y foment honno, nid yw'r ddau yn gwybod beth a ddaw, na pha wynfydau a phoenau sy'n eu disgwyl. Maent, fel Abraham, yn cychwyn ar daith gyda'i gilydd. A dyna beth yw priodas! Cychwyn allan a cherdded ynghyd, law yn llaw, dodi eich hunain yn nwylo nerthol yr Arglwydd. Law yn llaw, yn wastadol ac am weddill eich oes. A pheidiwch â thalu dim sylw i'r diwylliant dros dro hwn a all chwalu ein bywydau."*

POPE FRANCIS, ROME, 26 OCTOBER 2013

**Sut y gallwn ddeall priodas yn well fel galwedigaeth?**

4. *Y dyddiau hyn fe gewch rai sy'n dweud bod priodas yn hen-ffasiwn … Dywedant nad yw hi'n werth ymrwymo iddi am oes, gwneud datganiad terfynol `am byth', oherwydd ni wyddom beth a ddaw yfory."*

Y PAB FFRANSIS, 28 GORFFENNAF 2013, DIWRNOD IEUENCTID Y BYD, BRAZIL

**Sut y mae eich priodas yn eich cyfoethogi?**

5. *"Mae'r teulu yn bwysig ac yn angenrheidiol i oroesiad y ddynoliaeth. Heb y teulu, byddai parhad diwylliannol yr hil ddynol mewn perygl."*

Y PAB FFRANSIS, 27 GORFFENNAF 2013, CYFWELIAD AR RADIO CATEDRAL

# YR ALWAD, Y DAITH A'R GENHADAETH

Gwahoddiad oddi wrth Esgobion Lloegr a Chymru i Fyfyrio ar Rodd Priodas a Bywyd Teuluol

## CWESTIYNAU I FYFYRIO ARNYNT

**Sut mae eich teulu yn cyfoethogi y rheini o'ch cwmpas?**

6. *"Deuluoedd annwyl, gwyddoch yn dda iawn nad yw'r gwir lawenydd yr ydym yn ei brofi yn y teulu yn fas; nid yw'n dod o bethau materol, o'r ymddangosiad bod popeth yn mynd yn iawn … Daw gwir lawenydd o gytgord dyfnfawr rhwng pobl, rhywbeth yr ydym i gyd yn ei deimlo yn ein calonnau ac sy'n peri inni brofi prydferthwch bod ynghyd, cynorthwyo ein gilydd trwy daith bywyd. Ond sylfaen y teimlad hwn o lawenydd dwfn yw presenoldeb Duw, presenoldeb Duw yn y teulu a'i gariad, sy'n croesawu pawb, yn trugarhau wrthynt ac yn eu parchu. Ac yn bennaf oll, cariad sy'n amyneddgar … os yw cariad Duw yn absennol, mae'r teulu'n colli ei gytgord, daw hunanoldeb i deyrnasu ac mae llawenydd yn machlud. Ond mae'r teulu sy'n profi llawenydd ffydd yn ei gyfleu yn naturiol. Mae'r teulu hwnnw yn halen y ddaear ac yn oleuni'r byd, lefain y gymdeithas ydyw yn gyffredinol. Deuluoedd annwyl, ymfucheddwch bob amser mewn ffydd a symlrwydd, fel Teulu Sanctaidd Nasareth! Boed llawenydd a thangnefedd yr Arglwydd gyda chi bob amser!"*

Y PAB FFRANSIS, RHUFAIN, 27 HYDREF 2013

**Ym mha ffordd, trwy bresenoldeb arhosol Duw, y mae eich teulu yn "halen y ddaear a goleuni'r byd," ac yn fangre lle ceir ac y trosglwyddir ein ffydd?**

## GWEDDI

O Dduw,
a welodd yn dda roi inni esiampl ddisglair y Teulu Sanctaidd,
dyro yn raslon inni eu hefelychu wrth ymarfer rhinweddau bywyd teuluol
ac yn rhwymau cariad,
fel y byddwn,
ryw ddydd,
yn profi hyfrydwch gwobrwyon tragwyddol.
Gofynnwn hyn trwy Grist ein Harglwydd.
Amen.

## AR GYFER MYFYRDOD NEU GYMORTH PELLACH

| | |
|---|---|
| **catholicfamily.org.uk** | Gwefan Priodas a Bywyd Teuluol bwrpasol Cynhadledd Esgobion Cymru a Lloegr |
| **homeisaholyplace.org.uk** | Adnodd i helpu myfyrio ar bresenoldeb Duw yn y cartref |
| **familias-ew.org.uk** | Gwybodaeth am gydlynwyr esgobaethol gweinidogaeth priodas a'r teulu |
| **cedar.uk.net** | Adnoddau ar gyfer Catholigion sy'n Dioddef Camarfer yn y Cartref |
| **marriagecare.org.uk** | Cymorth gyda Phriodas – Paratoi a Chynghori |